**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 20 Ebrill 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| V M Evans | C A Holley | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | J W Jones | E T Kirchner |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Clive Lloyd | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J A Hale, H M Morris a/ac G J Tanner
Swyddog(ion): Helen St John

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datganodd y Cynghorydd Chris Holley fuddiant personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Monitro Perfformiad

Briffiwyd y panel ar yr adroddiad monitro perfformiad ar gyfer Chwefror 2021 gan Amy Hawkins, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau i Oedolion. Nododd fod y sefyllfa gyffredinol wedi dechrau gwella'n gyffredinol ym mis Chwefror 2021 ac yn edrych hyd yn oed yn well erbyn hyn.

Pwyntiau i'w trafod:

- Pwynt Mynediad Cyffredin – derbyniwyd ychydig yn llai o ymholiadau gan fod atgyfeiriadau diogelu'n mynd yn uniongyrchol i'r tîm diogelu. Mae achosion yn llawer mwy cymhleth – tua 50 y mis yn fwy yn mynd i dimau gwaith cymdeithasol.
- Adolygiadau ffurfiol - Aeth System WCCIS yn fyw yng nghanol mis Ebrill. Yn y misoedd i ddod bydd yr wybodaeth yn yr adroddiad am adolygiadau'n edrych yn wahanol. Mae gwybodaeth adolygu'n dda i'r Tîm Iechyd Meddwl. Mae mwy o waith i'w wneud ar y Tîm Anableddau Dysgu; rhaid canolbwyntio ar hyn i sicrhau fod yr wybodaeth yn gyfoes.
- Asesiadau Gofalwyr – nid oes llawer o wahaniaeth i'w weld o ran ystadegau ond ceir mwy o ffocws ar y maes hwn. Bydd gwaith yn datblygu yn y flwyddyn i ddod. Teimlai'r panel nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu'r un gwasanaeth ag yr oedd yn ei ddarparu flynyddoedd yn ôl; mae llawer mwy o faich ar bobl sy'n byw'n annibynnol a mwy o bwysau ar ofalwyr. Mae grŵp wrthi'n edrych ar gymorth i ofalwyr, mae cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith a bydd yn mynd ati'n rhagweithiol i nodi gofalwyr. Bydd y panel yn edrych yn fanylach ar ofalwyr mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Mae data Cartrefi Gofal wedi gwella'n fawr ac yn fwy sefydlog. Mae nifer o swyddi gwag ar draws y ddarpariaeth yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.
- Holodd y panel am y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau dydd a sut mae hyn yn cymharu â'r ddarpariaeth ddwy flynedd yn ôl. Fe'i hysbyswyd fod y gwasanaethau preswyl yn debyg iawn i weddill y farchnad; mae gan yr awdurdod swyddi gwag fel pawb arall. Ar gyfer gwasanaethau dydd, mae darpariaeth frys yn dal i gael ei chynnig ond mae'r niferoedd yn gyfyngedig oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol; ar gapasiti o 30%. Yn gyffredinol, mae llai o bobl yn dod i mewn i'r gwasanaeth nawr; mae rhywfaint o bryder ynglŷn â hyn. Mae rhywfaint o'r gwaith ataliol wedi cynyddu'n fawr ac mae llawer mwy o achosion cymhleth.
- Mae'r llwybr rhwng yr ysbyty a Bôn-y-maen yn gweithio'n dda iawn. Ym mis Chwefror/Mawrth roedd 14 o welyau ar gael; erbyn hyn mae 19 ohonynt.
- Cynnydd mawr ym mis Chwefror o ran faint o oriau ailalluogi sy'n cael eu cynnig o ran cefnogaeth gofal cartref. Mae'n cymryd chwe diwrnod ar gyfartaledd i ddod o hyd i gymorth i bobl.
- Ailalluogi Preswyl – Holodd y panel ynghylch mater yn yr adroddiad sy'n ymwneud â'r broses meddyginiaethau mewnol, a fydd yn cael ei diwygio. Fe'i hysbyswyd ei fod yn gysylltiedig â chymhlethdod yr angen y maent bellach yn ei

weld o ran gwelyau ailalluogi. Ei bwrpas yw sicrhau bod prosesau cywir ar waith a bod popeth yn gysylltiedig.

- Ffigurau brocera cyfredol – dim ond dau berson sy'n aros o heddiw. Mae hyn yn ardderchog.
- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid – Dechrau gweld gwelliannau yn yr ôl-groniad.
- Holodd y panel sut mae'r sefyllfa bresennol yn cymharu â'r sefyllfa y llynedd a'r flwyddyn flaenorol, o ran data yn yr adroddiad. Nodwyd y rhoddwyd ffigurau cymharol ar gyfer y llynedd a'r flwyddyn flaenorol lle y bu'n bosibl. Ni ellir cymharu peth o'r wybodaeth.
- Stoc tai cyngor, yn enwedig tai lloches - mae'r panel yn credu bod cynlluniau cymorth gofal yn cael eu llunio ar gyfer pob preswylydd sydd eisiau un, a gofynnwyd a ydym yn gwybod faint o gynlluniau sydd eisoes ar waith, fel man cychwyn o ran asesu anghenion. Bydd swyddogion yn darparu ymateb ynglŷn â chynlluniau gofal y tu allan i'r cyfarfod.
- Cronfa Gofal Integredig ac ansicrwydd ynghylch cyllid – roedd y panel am wybod pa ffactorau fydd yn dylanwadu ar hyn a phryd. Fe'i hysbyswyd fod yr awdurdod am gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru o ran pa gynllun neu drefniant newydd y gellid ei roi ar waith i gefnogi gweithio rhanbarthol, cyn gynted â phosib eleni, i gynllunio rhaglenni parhaus ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ni ellir cynnwys y gwaith hwn o fewn cyllid craidd.
- Cododd y panel y mater ynghylch tynnu staff y Byrddau Iechyd yn ôl o reoli Anableddau Dysgu. Holwyd sut cafodd hyn ei gyfiawnhau, sut y cafodd ei reoli a phwy o'r Bwrdd Iechyd wnaeth y penderfyniad hwn. Bydd swyddogion yn ymchwilio i hyn ac yn rhoi ymateb llawnach.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu sesiwn friffio ar ofalwyr at raglen waith y dyfodol
- Caiff gwybodaeth am y cynlluniau cefnogi gofal sydd ar waith i breswylwyr stoc tai'r cyngor ei darparu i'r panel
- Caiff rhagor o wybodaeth am staff Byrddau Iechyd yn cael eu tynnu'n ôl o reoli Anableddau Dysgu ei darparu i'r panel.

## 6 Y diweddaraf am sut mae ymrwymiadau polisi'r cyngor yn cael eu rhoi ar waith yn y Gwasanaethau i Oedolion

Roedd Clive Lloyd, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol yn bresennol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel ac i ateb cwestiynau. Dywedodd wrth y panel fod llunio'r adroddiad hwn wedi’i atgoffa o sut mae'r ymrwymiadau polisi wedi'u gwreiddio ym mhopeth a wnawn.

Pwyntiau i'w trafod:

- Y gweithlu’n ganolog i bopeth sy’n cael ei wneud yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd angen gwneud llawer o waith cynllunio i sicrhau bod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol weithlu cynaliadwy wrth symud ymlaen. Hoffai Aelod y Cabinet ddarparu sesiwn friffio ar les yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod ymrwymiadau'n parhau i lywio'r gwaith o addasu ac adfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol. Maent wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth fel penawdau i ganolbwyntio arnynt. Mae'r Cyfarwyddwr yn falch iawn o'r broses y gallant ei dangos.
- Holodd y panel sut mae hyn yn cyd-fynd â'r adolygiad comisiynu a gynhaliwyd ychydig flynyddoedd yn ôl a'r ymarfer caffael a wnaed yn ddiweddar. Cadarnhaodd swyddogion fod y cyngor wedi cymeradwyo'r model gorau posib ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i fod yn gyson ag ymrwymiadau polisi. Dim newid cyfeiriad. Mae rhagor o waith i'w wneud o hyd ond mae popeth yn dal i ffitio ac yn llywio meddwl wrth symud ymlaen.
- O ran comisiynu adolygiad, roedd y panel yn cofio am faterion ynghylch gofal cartref a gwasanaethau dydd. Mae'r panel yn disgwyl adborth ar gyfraddau lefelau gofal ac ymyriad, yn enwedig ar wasanaethau dydd. Hysbyswyd yr adwaenwyd hwn yn flaenorol fel y Pedwerydd Adolygiad Comisiynu. Mae'n cael ei ddefnyddio a'i gynnal fel adolygiad a bydd yn rhaid iddo ystyried popeth sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Edrychir ar lefelau gofal ac ymyriad.
- Teimlai'r panel fod Cydlynwyr Ardaloedd Lleol (CALl) wedi newid eu proffiliau swyddi'n sylweddol yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol ac roedd yr hyn a wnaethant yn rhagorol. Teimlai'r panel y dylid cydnabod hyn rywbryd yn y dyfodol, yn ogystal â'r bobl a gamodd i mewn o wasanaethau eraill i helpu; dylid dathlu hyn.
- Holodd y panel ynghylch pa mor sicr y mae'r awdurdod ynghylch cyllid ar gyfer CALl oddi wrth gymdeithasau tai etc.; os oes unrhyw ffordd y gellir eu cadw'n hirach; ac a oes unrhyw gyllid allanol arall y gallwn ei gael i ariannu CALl. Cadarnhaodd swyddogion y derbyniwyd cyllid o nifer o ffynonellau eleni. Byddant yn edrych ar sut y gallant arallgyfeirio ffrydiau ariannu. Gwneir gwerthusiad ar y cyd â Phrifysgol Abertawe i nodi effaith ariannol a chymdeithasol cydlynu ardaloedd lleol. Bydd swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel am gyllid ar gyfer CALl.
- Cododd y panel dri chwestiwn am Hyrwyddo Byw'n Annibynnol. Holwyd a yw'r gwasanaeth tai yn yr awdurdod yr un mor ymrwymedig i'r rhaglen hon â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet y byddent yn disgwyl hyn yn sicr.
- Holodd y panel a fyddai graddau'r byw annibynnol ychwanegol a gyflawnir yn rhywbeth y byddai'r Adran yn ei gysylltu â chyllidebu ar gyfer canlyniadau. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet ei fod yn rhan o'r strategaeth canlyniadau gychwynnol wrth bennu cyllideb ond nid oes methodoleg o'r Is-adran Cyllid ar gyfer cyllidebu ar gyfer canlyniadau y mae cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn seiliedig arni. Teimlai'r panel y byddai'n rhaid iddynt gael rhestr o ganlyniadau drafft y mae adnoddau ynghlwm wrthynt rywbryd.
- Holodd y panel hefyd a yw byw annibynnol wedi'i gynnwys yng ngwerthusiad y Brifysgol o effaith cydlynu ardaloedd lleol. Cadarnhaodd swyddogion fod llawer o waith i'w wneud o hyd o ran mireinio'r hyn y bydd y gwerthusiad yn ei gwmpasu. Fel un o'r amcanion, maent yn edrych ar heriau penodol y mae unigolion wedi'u hwynebu ac y mae'r CALl yn canolbwyntio arnynt a sut y mae cydlynu ardaloedd lleol wedi ymateb iddynt.

- Holodd y panel ynghylch cynnydd o ran datblygiad y Strategaeth Technoleg Gynorthwyol ar hyn o bryd. Cadarnhaodd swyddogion ei fod yn eitem ar agenda'r panel yn y dyfodol; mae wedi'i hoedi ond nid yw wedi'i thynnu oddi ar yr agenda.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu sesiwn friffio ar 'Les Gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol' at gyfarfod yn y dyfodol.

7 **Amserlen Rhaglen Waith 2020-21**

Ystyriwyd y rhaglen waith gan y panel.

8 **Llythyrau**

Cafodd llythyrau eu derbyn a'u hystyried gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 pm